Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Wirfoddol Abergwili

**Gerddi Gyfre**
**Abergwili**
**CaerfyrddinSA31 2JD**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o roi cynnig ar ein trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Wirfoddol Abergwili

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Wirfoddol Abergwili |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol Wirfoddol o dan Arweiniad |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 41 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 31 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 8.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 32.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 9.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 07/05/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae pennaeth gweithredol yn arweinydd medrus a chraff sy'n gosod disgwyliadau uchel o'i hun a'i staff. Rhoddir pwyslais cryf ar gynnal lles y disgyblion ac i sicrhau bod yr ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned leol, gan gynnwys yr eglwys. Nodwedd gref o waith y pennaeth yw'r modd mae'n annog staff o'r ddwy ysgol sydd o dan ei harweiniad i gydweithio a chefnogi ei gilydd er mwyn cryfhau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn defnyddio trefniadau hunanwerthuso effeithiol er mwyn amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr ac aelodau'r corff llywodraethol yn cymryd rhan weithredol yn y broses, sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o flaenoriaethau'r ysgol yn dda. Maent yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarn ac yn rheoli'r gyllideb yn ofalus i leihau'r diffyg presennol.

Mae natur ofalgar, gynhwysol a theuluol yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da ymysg y disgyblion ac yn eu hannog i ofalu am a pharchu ei gilydd. Mae disgyblion yn dangos agweddau cryf tuag at ddysgu, gan gydweithio'n briodol ar dasgau ymarferol a datblygu eu medrau dysgu annibynnol. Er bod disgyblion yn adeiladu'n gynyddol ar y medrau hyn, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion hŷn ymateb i adborth athrawon er mwyn gwella eu gwaith eu hunain.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sydd wedi'i seilio ar yr ardal leol. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Gan ystyried bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn newydd i'r Gymraeg, mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn cyfathrebu'n gynyddol hyderus. Er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol, nid ydynt bob tro'n defnyddio iaith lafar raenus yn ddigon cyson wrth gyfathrebu. Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn adeiladu'n briodol ar eu medrau ysgrifennu cynnar cadarn. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ac ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau rhifedd. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion hŷn ddatblygu ystod lawn o fedrau a dealltwriaeth yn unol â'u gallu a'u cam ddatblygiad. Yn ogystal, prin yw'r cyfleoedd iddynt ymarfer a chymhwyso'u medrau mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Cryfhau medrau Cymraeg disgyblion

A2 Sicrhau bod y profiadau dysgu yn herio'r disgyblion yn gyson i'w cefnogi i gyflawni hyd orau eu gallu a'u cam datblygiad

A3 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fwriadus dros amser

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

Mae'r pennaeth gweithredol yn gosod gweledigaeth a chyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol, sydd wedi ei seilio'n gadarn ar ddatblygu disgyblion cyflawn o'r 'hedyn i flodyn', gyda'r cyfan yn cael ei gynnal trwy egwyddorion Cristnogol cyson. Mae'n arweinydd medrus a chraff sy'n gosod disgwyliadau uchel o'i hun a'r staff. Rhoddir pwyslais cryf ar gynnal lles y disgyblion ac i sicrhau bod yr ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned leol, gan gynnwys yr eglwys. Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth wedi datblygu cysylltiadau buddiol rhwng arweinwyr a staff y ddwy ysgol sydd o dan ei harweiniad. Mae hyn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion, yn ogystal â datblygu medrau'r staff.

Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth ddefnyddiol o drefniadau hunanwerthuso i amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella yn dda. Mae prosesau monitro pwrpasol yn sicrhau bod arweinwyr, gan gynnwys aelodau'r corff llywodraethol, yn cymryd rhan weithredol mewn gwerthuso gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol sy'n canolbwyntio'n dda ar wella'r dysgu ac addysgu, gan herio cynnydd yn erbyn y targedau gwella yn briodol. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarn, sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn cydweithio â'r awdurdod addysg leol i geisio lleihau'r diffyg sydd wedi cronni dros y blynyddoedd.

Mae natur ofalgar, gynhwysol a theuluol yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da ymysg disgyblion ac yn eu hannog i ofalu am a pharchu ei gilydd. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwrtais â'i gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn cefnogi'u cyfoedion yn dda iawn. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion y rhai ieuengaf ar y buarth, gan sicrhau eu bod yn dychwelyd yn ddiogel i'w dosbarth ar ôl amseroedd egwyl.

Mae agweddau'r disgyblion at eu dysgu yn gryfder amlwg ar draws yr ysgol. Pan gânt y cyfle, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn effeithiol i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol ac i gydweithio â'u cyfoedion ar dasgau ymarferol, gan gynnwys gweithio mewn parau ac mewn grŵp. Mae'r staff dysgu sylfaen yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn llwyddiannus i'w hanghenion, gan symud y dysgu ymlaen i'r cam nesaf yn unol â'u datblygiad. Maent wedi creu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n annog disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol ac i arbrofi a darganfod drostynt eu hunain yn effeithiol iawn. Mae'r ystod dda o brofiadau dysgu a chwarae buddiol hyn yn tanio eu dychymyg ac yn adeiladu ar eu

chwilfrydedd naturiol yn effeithiol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn cydweithio i gynllunio ac adeiladu llong wrth ddefnyddio cyfarpar mawr tra'n ymateb i gais gan fôr-leidr am gymorth.

Mae'r disgyblion hŷn yn adeiladu ar eu medrau dysgu annibynnol yn lled hyderus ac yn cydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion, gan gynnwys datrys problemau go iawn, er enghraifft wrth gynllunio a chreu llifddorau fel rhan o'u gwaith ar effaith llifogydd ar bentref Abergwili. Er bod y disgyblion hŷn yn dechrau ymateb yn addas i adborth athrawon, prin yw'r cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol er mwyn gwella eu gwaith eu hunain.

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm pwrpasol sydd wedi'i seilio'n gadarn ym milltir sgwâr y disgyblion. O ganlyniad, maent yn cydweithio'n agos â rhieni ac aelodau'r gymuned er mwyn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin a'u treftadaeth. Enghraifft dda o hyn yw 'Prosiect Brechfa' sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymweld â choedwigaeth leol yn rheolaidd er mwyn datblygu'u hymwybyddiaeth o fyd natur yn ogystal â hanes a daearyddiaeth yr ardal. Yn ogystal, maent yn creu darnau o waith celf diddorol fel crochenwaith sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau creadigol. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Mae hyn yn meithrin diddordeb a'u hagweddau cadarn at eu gweithgareddau, ac yn eu hannog i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu.

Mae perthynas waith gynhyrchiol rhwng disgyblion a staff sydd yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth. Ar ddechrau eu hamser yn yr ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion yn unol â'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu cam datblygiad, heblaw am y Gymraeg sy'n newydd i'r rhan fwyaf ohonynt. Dros amser, maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio iaith raenus yn gyson er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn ymateb yn gynyddol hyderus wrth ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan ddefnyddio ystod dda o eirfa a chystrawennau wrth gynnig syniadau. Er bod y rhan fwyaf o'r ddisgyblion hŷn yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol, nid ydynt bob tro'n defnyddio iaith lafar raenus a phatrymau brawddeg cywir yn ddigon cyson wrth gyfathrebu. Mae hyn yn ei dro yn arafu cynnydd y disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg hyd orau eu gallu a'u cam datblygiad.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion dysgu sylfaen yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen ac yn gyfarwydd â phwrpas a chynnwys llyfrau. Maent yn datblygu eu medrau dysgu cynnar yn dda ac mae llawer yn darllen yn hyderus wrth ddarllen ar goedd ac wrth drafod cynnwys eu llyfrau. Mae'r disgyblion hŷn yn darllen ystod briodol o destunau gan ddangos diddordeb mewn llyfrau a thrafod y cynnwys yn aeddfed. Yn gyffredinol, maent yn darllen yn gymharol rugl a gyda mynegiant a goslef llais da, yn enwedig yn y Saesneg.

Trwy ymgymryd ag ystod dda o brofiadau dysgu pwrpasol sydd ar gael i ddisgyblion dysgu sylfaen, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae disgyblion ieuengaf y dosbarth yn ymarfer ac yn datblygu eu medrau modur mân yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau buddiol, gan gynnwys rholio toes i greu siapiau o bysgod. Erbyn Blwyddyn 1, mae'r disgyblion mwyaf abl yn

ysgrifennu brawddegau'n hyderus wrth greu posteri 'Yn eisiau' ar gyfer môr ladron. Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu'n gynyddol hyderus mewn ystod addas o wahanol ffurfiau. Maent yn adnabod nodweddion gwahanol fathau o ysgrifennu yn addas er mwyn cynllunio eu darnau eu hunain, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd yn seiliedig ar ffrwydrad Pompeii. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i herio'r disgyblion yn eu dysgu er mwyn eu cefnogi i gyflawni hyd orau eu gallu a'u cam datblygiad. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ac ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau rhifedd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cymhwyso'u dealltwriaeth o rif yn gadarn mewn ystod dda o brofiadau buddiol, gan gynnwys ymdrin ag ystod o ddarnau arian wrth dalu am nwyddau. Yn lled ddiweddar, mae llawer o'r disgyblion hynaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn addas mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, gan gynnwys creu graff llinell i gofnodi a dadansoddi tymheredd. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau a dealltwriaeth yn unol â'u gallu a cham datblygiad, ac i'w cymhwyso mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn gadarn. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cynorthwywyr dysgu yn cydweithio'n effeithiol â rhanddeiliaid, gan gynnwys rhieni, i gefnogi disgyblion trwy ystod o raglenni cefnogaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'u lles.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2024